Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 315

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Diwrnod Agored Gorsaf Heddlu Aberteifi

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Cysylltwyd â'r CHTh i ofyn am rodd i gefnogi darpariaeth lluniaeth yn Niwrnod Agored Gorsaf Heddlu Aberteifi.

Hwn yw'r Diwrnod Agored cyhoeddus cyntaf i gael ei gynnal yng Ngorsaf Heddlu Aberteifi ers iddi agor yn 2010.

Bydd staff a swyddogion heddlu sy'n gweithio yng Ngorsaf Heddlu Aberteifi ar gael i rannu'r gweithgarwch cadarnhaol yr ymgymerir ag ef i gadw preswylwyr Ceredigion yn ddiogel.

Bydd y digwyddiad hefyd yn rhoi cyfle i arddangos adrannau arbenigol y sefydliad nad yw'r cyhoedd yn ymgysylltu â nhw'n rheolaidd, megis yr Uned Forol, Uned Wrth Gefn yr Heddlu, y Tîm Dronau a'r Uned Cefnogaeth Arfog.

Bydd y digwyddiad yn hyrwyddo ac yn annog recriwtio Swyddogion Heddlu, gan gynnwys Cwnstabliaid Gwirfoddol, Staff Heddlu a Gwirfoddolwyr. Bydd y Timoedd Dysgu a Datblygu ac Adnoddau Dynol yn bresennol i roi cyngor ac arweiniad i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â'r gwasanaeth heddlu.

Mae'r digwyddiad yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiynydd mewn perthynas ag atal niwed a chefnogi ein cymunedau.

**Argymhelliad:**
Rhoi £700 i gefnogi darpariaeth lluniaeth yn Niwrnod Agored Gorsaf Heddlu Aberteifi.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 12/10/23**